

## Gair Duw

### Darlleniad: 1 Ioan 2: 3-17

---

---

Ein Tad, ymgrymwn ger dy fron yn awr i gydnabod yn ddiolchgar bod dy Air yn ‘llusern i’ m troed, ac yn oleuni i’ m llwybr’.

Mawrygwn a chanmolwn dy enw mai trwy dy Air y creaiast ac y cynhaliast y byd a’ r bydysawd. Gair ydyw sy’n creu ac yn cynnal, a chreaiast ninnau o’ r newydd drwy dy Air yn ein Harglwydd Iesu Grist. Diolchwn i ti am y Gair a ddaeth yn gnawd ‘a phreswylodd yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd’. Galluoga ni, drwy weinidogaeth dy Lân Ysbryd, i ddarganfod y Crist hwn yn dy Air a gweld o’ r newydd ogoniant ei berson fel unig Fab a ddaeth oddi wrth y Tad ac a hysbysodd i ni ddirgelion dy deyrnas a’ r bywyd tragwyddol. Cofiwn am eiriau Moses ganrifoedd yn ôl cyn dyfodiad Iesu i’ n daear: ‘Nid gair dibwys yw hwn i chwi, ond dyma eich bywyd; trwy’ r gair hwn yr estynnwch eich dyddiau ...’

Diolchwn i ti am ein Harglwydd Iesu Grist, y Bywyd, ac am iddo ddatguddio i ni sut un wyt ti; am iddo oleuo ein llwybrau fel y medrwn gerdded yn dy oleuni di. Galluoga ni i wneud hynny, O! Dad nefol, fel y gwelwn bod angen dy oleuni arnom. Yng nghanol tywyllwch ac anobaith ein byd, boed inni ddarganfod y goleuni hwn sydd yn dy Air, fel y dilynwn ac y cyfoethogwn ein bywydau.

Cynorthwya ni, felly, i geisio arweiniad dy Air, fel bod y Gair yn troi’ n wirionedd ac yn fywyd i ni:

‘Mae dy air yn abl i’ m harwain  
Trwy’ r anialwch mawr ymlaen ...’

Gweddiwn am i ninnau, yng nghanol anialwch a phrofiadau bywyd, fedru pwyso ar dy Air a phrofi o’ r newydd ei rym a’ i gynhaliast. Ni fedrwn ddibynnu ar air neb arall ond dy Air di, a chofiwn i Iesu ein hatgoffa mai dy Air yw’ r gwirionedd. Cofiwn hefyd eiriau Esea:

‘Fel y mae’ r glaw a’ r eira yn disgyn o’ r nefoedd, a heb ddychwelyd yno yn dyfrhau’ r ddaear, a gwneud

iddi darddu a ffrwythloni, a rhoi had i'w hau a bara  
i'w fwyta, felly y mae fy ngair sy'n dod o'm genau; ni  
ddychwel ataf yn ofer, ond fe wna'r hyn a ddymunaf, a  
llwyddo â'm neges ...'

Dymunwn brofi o'r newydd y Gair hwn yn fyw a pherthnasol i ni  
yn ein bywydau, er y gwyddom mor annheilwng ydym o gael  
rhodio dan ei gyfarwyddyd a'i arweiniad. Maddau i ni, Arglwydd,  
am y diffyg sêl ac ymroddiad sydd ynom i'th Air, ac am inni gefnu  
ar ei wirionedd. Buom oll yn grwydredig a ffôl. Dilynasom ffyrdd  
a llwybrau'r byd yn fynych a chollasom dy ffordd di. Arwain ni  
eto, yn dy drugaredd, yn ôl i'r Gair, er mwyn inni ddarganfod o'r  
newydd dy wirionedd i ni. Diolch i ti am drugarhau wrthym ac am  
ymwneud â ni, ein bywyd a'n byd yn Iesu Grist. Dyro inni  
werthfawrogi ei eiriau o'r newydd:

‘Hyfryd eiriau’r Iesu,  
Bywyd ynddynt sydd;  
Digon byth i'n harwain  
I dragwyddol ddydd:  
Maent o hyd yn newydd,  
Maent yn llawn o'r nef;  
Sicrach na'r mynyddoedd  
Yw ei eiriau ef.’

Crea'r awydd ynom, O! Arglwydd, am y sicrwydd hwn mewn  
bywyd, sef sicrwydd dy Air fel y'i llefarwyd gan Iesu. Gwêl yn  
dda, O! Dad, i'n cynnal ninnau i ddarllen dy Air a myfyrio arno, fel  
y gwelwn dan arweiniad yr Ysbryd Glân mai ti yw'r Arglwydd a'r  
Gwardwr yn Iesu Grist. Buom yn esgeulus o'r Gair ac aeth y Beibl  
yn llyfr caeëdig yn ein hanes oll. Boed inni ei agor, ac yng  
nghyfoeth ac ysblander dy Air ddarganfod eto o'r newydd fywyd a  
fydd er gogoniant i'th enw sanctaidd. Hyn a ddeisyfwn, er mwyn  
yr hwn a ddaeth atom i'n gwaredu, yr Arglwydd Iesu Grist. Amen.

*Geraint Hughes*